**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 447**
**2 Mawrth 2021 - Cyfarfod Zoom**

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol:** | | |
| **Aelodau Anweithredol y Bwrdd:** | Rhodri Williams | (Cadeirydd) |
| | Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Siân Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Adele Gritten | (Aelod o'r Bwrdd) – eitemau 1-8 |
| | Chris Jones | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Guto Bebb | (Aelod o'r Bwrdd) – eitemau 1-8 |
| **Aelodau Gweithredol:** | Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| | Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| | Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |
| **Hefyd yn bresennol: Staff S4C:** | Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| | Sharon Winogorski | (Prif Swyddog Cyllid) |
| | Owain Lloyd | (Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| | Bethan C. Williams | (Cynorthwyydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| **Ymddiheuriadau:** | Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Bwrdd) |

**MATERION SEFYDLOG:**

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Unedol S4C. Roedd wedi derbyn ymddiheuriad gan Hugh Hesketh Evans.

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau eraill oni bai am ddatganiad RhW mewn perthynas ag Ofcom.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn Adran y Bwrdd ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol*

2. **Adroddiad y Cadeirydd**

Nid oedd unrhyw ddiweddariad gan y Cadeirydd.

3. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd OE ei adroddiad misol gan gynnwys y materion isod.

3.1 **Archif Darlledu Cenedlaethol**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd EM fanylion y cais ffurfiol i fod yn rhan o'r Archif Ddarlledu Genedlaethol gyda'r Llyfrgell Genedlaethol drwy arwyddo Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

Cymeradwywyd yr argymhelliad bod S4C yn dod yn rhan o'r Archif Ddarlledu Genedlaethol ac yn arwyddo'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.]

3.2 **Diweddariad trafodaethau gyda'r BBC**

Cafwyd diweddariad am y trafodaethau gyda'r BBC.

Sefyllfa HD

**[Crynodeb:** Bu trafodaethau ynglŷn â chael gofod gan y BBC i sicrhau gwasanaeth HD rhan amser ar Freeview yng Nghymru.]

Trafodaethau Hawliau Chwaraeon

**[Crynodeb**: Roedd trafodaethau'n digwydd mewn perthynas â'r Pro14 a'r Chwe Gwlad.]

3.3 **Cydleoli**

Adroddwyd fod peth broblemau cychwynnol wedi bod gyda darlledu o Sgwâr Canolog, ond roedd y swyddogion yn gweithio'n galed i ddatrys y rheiny.

**[Crynodeb:** Holwyd os oedd hyder gan swyddogion fod y BBC yn ymateb. Nododd OE fod ganddo hyder y bydd y materion yn cael y sylw angenrheidiol. Mae cyfarfodydd misol o'r Bwrdd Partneriaeth ar y Cyd a chyfarfodydd technegol neu weithredol yn rheolaidd. Roedd hefyd trafod dyddiol rhwng y timoedd.]

Mewn perthynas â'r diffygion o bersbectif y gwylwyr, y rhai mwyaf amlwg oedd diffyg isdeitlau ar S4C Clic a'r oedi gyda rhai rhaglenni yn ymddangos ar Clic. Adroddwyd fod cwynion wedi dod i mewn, ond roedd S4C wedi ymateb yn onest gan nodi'r gwendidau a'r cynlluniau ar gyfer eu gwella.

Nododd RhW faint o waith oedd wedi bod ynghlwm â'r prosiect cydleoli ac roedd yn awyddus i gofnodi'n ffurfiol diolch y Bwrdd i bawb oedd wedi bod yn rhan o'r ymdrech a'r gwaith.

3.4 **Datganoli Darlledu**

Mewn perthynas â bwriad y Senedd i gyhoeddi adroddiad ar ddatganoli darlledu, holwyd os oedd bwriad i S4C ymateb o gwbl. Pe bai rhywun yn gofyn i S4C ymateb, nodwyd taw'r bwriad oedd gwneud yn y ffordd arferol. Hynny yw, bod cyfrifoldeb am sut, ac o ble, mae S4C yn cael ei ariannu yn fater i wleidyddion, a bod S4C yn fodlon cydweithio ag unrhyw drefniadau sy'n cael eu cytuno rhwng Bae Caerdydd a San Steffan.

3.5 **Aelodaeth Pwyllgorau'r Bwrdd**

Cyflwynwyd yr argymhelliad isod ar gyfer aelodaeth Pwyllgorau'r Bwrdd.

| **Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol** | | |
|---|---|---|
| Hugh Hesketh Evans (Cad) | Owen Evans | |
| Anita George | Sharon Winogorski | |

| | | |
|---|---|---|
| Rhodri Williams | Elin Morris | |
| Chris Jones | Owain Lloyd | |
| Guto Bebb | | |
| **Pwyllgor Cynnwys** | | |
| Rhodri Williams (Cad) | Owen Evans | |
| Siân Lewis | Amanda Rees | |
| Anita George | Eilir Jones | |
| Adele Gritten | Gwyn Williams | |
| 1 Arall* | Owain Lloyd<br>Owen Derbyshire | |
| | | |
| **Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth** | | |
| Siân Lewis (Cad) | Owain Lloyd | |
| Hugh Hesketh Evans | | |
| Guto Bebb | | |
| Adele Gritten | | |
| **Y Bwrdd Masnachol** | | |
| Rhodri Williams (arsylwr) | Owen Evans | |
| Anita George | Elin Morris | |
| Chris Jones | Sharon Winogorski | |
| 1 Arall* | | |
| David Sanders (aelod annibynnol) | | |
| Gwyn Roberts (aelod annibynnol) | | |

Adroddwyd nad oedd unrhyw ddiweddariad mewn perthynas â phenodi pedwerydd aelod newydd i'r Bwrdd. Roedd RhW ac OLl yn dal i bwyso.

Cymeradwywyd yr argymhelliad a gyflwynwyd o ran aelodaeth y pwyllgorau.

4. **Bwrdd Masnachol**

**[Crynodeb:** Rhoddodd OE y cefndir i weithdrefn y Bwrdd Masnachol gan nodi problemau'r gorffennol. Ail-ffurfiwyd y Bwrdd gyda mwy o bwyslais ar lywodraethiant yn enwedig o ran y penderfyniadau am fuddsoddiadau. Bellach roedd panel buddsoddi ar lefel y swyddogion, yna'r Bwrdd Masnachol oedd wedyn yn adrodd yn ôl i'r prif Fwrdd. Eglurwyd bod aelodau annibynnol yn eistedd ar y Bwrdd Masnachol ac, yn ogystal, roedd arbenigwyr yn cadw golwg ar y cwmnïau ac yn cynghori.]

5. **Adroddiad Archwilwyr Mewnol ar Lywodraethiant**

Esboniodd RhW fod yr Archwilwyr Mewnol TIAA wedi newid statws yr adroddiad.

**[Crynodeb:** Ymysg y pwyntiau oedd wedi cael sylw oedd gwaith y Bwrdd. Cafwyd rhai sylwadau gan yr Aelodau. Adroddwyd fod nifer o'r pwyntiau eisoes wedi'u gweithredu, gyda nifer eraill o dan sylw.]

Holwyd am y sefyllfa gyda danfon papurau'r Bwrdd dros e-bost. Esboniodd OLl fod ganddo gyfarfodydd gyda chwmnïau i edrych ar system portal o ran rhannu'r papurau yn y dyfodol.

Awgrymwyd y byddai modd trafod y materion uchod fel rhan o'r Cwrdd i Ffwrdd.

Roedd RhW yn awyddus i dderbyn sylwadau ar yr union bynciau a ddylai gael sylw gan yr archwilwyr, ac roedd yn awyddus i gael archwiliad allanol o lywodraethiant ac effeithiolrwydd y Bwrdd yn 2022-23.

6. **Ystyried Cynnwys a Ffurf y Cwrdd i Ffwrdd**

Trafodwyd syniadau o ran agenda'r Cwrdd i Ffwrdd. Roedd rhai yn awyddus i ddeall a thrafod sut mae'r newid i fod yn Fwrdd Unedol wedi gweithio. Roedd rhai hefyd yn awyddus i gael trafodaeth lawn am Strategaeth 22. Dylai fod balans rhwng cyflwyniadau a chyfle i drafod, gyda'r papurau wedi'i chyflwyno mewn da bryd cyn y cyfarfod. Byddai RhW ac OLl yn trafod yr agenda.

Trafodwyd hefyd y rhaglen sefydlu ar gyfer aelodau newydd a'r angen i fwrw ymlaen gyda hynny cyn y Cwrdd i Ffwrdd er mwyn i'r aelodau newydd gael cyfle i ddysgu mwy am S4C.

Penderfynwyd y byddai pecyn gwybodaeth gefndirol yn cael ei ddanfon at yr aelodau newydd, ac y byddai o fantais i ddosbarthu'r deunydd i'r aelodau presennol yn ogystal.

7. **Cais Ffi'r Drwydded**

Trafodwyd cais y ffi drwydded gan nodi fod trafodaethau wedi bod yn digwydd gyda swyddogion DCMS

**[Crynodeb:** Byddai'r cais yn gosod allan gofynion y sianel ac yn esbonio sut mae S4C yn cymharu gyda PSBs arall.

Cafwyd trafodaeth bellach am beth yn union sydd angen ei gynnwys yn y ddogfen.]

8. **Adroddiad Ariannol, Chwarter 3, 2020-21**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd ShW adroddiad ariannol, Chwarter 3.]

9. **Rhaglen Waith y Bwrdd**

Cyflwynwyd copi o Rhaglen Waith y Bwrdd ar gyfer 2021 er gwybodaeth.

10. **Cofnodion Cyfarfod 14 Ionawr 2021**

Cyflwynwyd cofnodion o gyfarfod rhif 446 gynhaliwyd ar 14 Ionawr 2021. Ni thrafodwyd unrhyw faterion oedd yn codi o'r cofnodion. Cymeradwywyd y cofnodion.

11. **Bwrdd Masnachol**

**[Crynodeb:** Cyflwynodd EM amlinelliad byr o gyfarfod diweddaraf y Bwrdd Masnachol.]

12. **Cofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau**

Nodwyd y gofrestr.

13. **Unrhyw fater arall**

Ni thrafodwyd unrhyw fater arall.